



Polisi(Adran Addysg Gwynedd)

Darparu ar gyfer plant a ffobia ysgol a phlant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol

1.Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â disgyblion sydd yn dioddef o ffobia ysgol neu sy'n gwrthod mynd i'r ysgol, ac fe ddefnyddir y term plant â ffobia ysgol i gwmpasu'r ddwy garfan.

2.Cyd-destun

2.1 Nid oes gan ymarferwyr unrhyw ddiffiniad clir o'r gwahaniaeth rhwng plant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol a'r rheini sy'n dioddef o ffobia ysgol. Gallai ddefnyddio'r diffiniad o'r gwahaniaeth rhwng disgyblion sy'n dioddef o ffobia ysgol a'r rheini sy'n driwantiad a ddefnyddir gan y Gymdeithas Genedlaethol Seicolegwyr Ysgol, fod o help i ysgolion

- Mae dioddefwyr ffobia ysgol/plant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol yn aros mewn cysylltiad agos gyda'u rhieni neu'u gofalwyr, tra nad yw bod mewn cysylltiad â rhieni yn peri pryder i driwantiad.
- Mae dioddefwr ffobia ysgol/plant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol yn aml yn bryderus ac yn ofnus (ond nid bob amser), tra nad yw colli ysgol yn peri pryder i driwantiad.
- Mae dioddefwr ffobia ysgol/plant sy'n gwrthod mynd i'r ysgol yn mynd yn gas neu'n sâl pan orfodir hwy i fynd i'r ysgol, tra bod triwantiad yn ymddwyn mewn ffordd amhriodol pan orfodir hwy i fynd i'r ysgol.

2.2 Gall ymwrthod cronig ag ysgol arwain at: ddirywiad academaidd, perthynas wael gyda chyfoedion, gwrthdaro gyda'r ysgol neu gyda'r gyfraith, pyliau o panig, osgoi gwaith neu goleg, agoraffobia, ac anhwylderau seicolegol fel oedolyn.

Ffactorau a allai gyfrannu tuag at achosi ffobia ysgol

- Maint a chynllun ysgol: Gall symud o amgylch yr ysgol, ymdopi gydag adeilad mawr, coridorau hir a llawn, achosi pryder.
- Strwythur y diwrnod ysgol: Gall y daith yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, amseroedd egwyl a chinio beri pryder.
- Gwrthdaro gydag athrawon
- Cyfnod trosglwyddo
- Ofn pynciau penodol:Gall hyn fod yn arbennig o gyffredin o amlwg, yn enwedig yn achos Addysg Gorfforol, lle gall ddisgybl bryderu am ddelwedd ei gorff ac am newid ei ddillad o flaen eraill.
- Pwysau academaidd
- Bwlio neu canfyddiad o fwlio.
- Problemau cyfeillgarwch
- Absenoldeb aml: effaith gronns absenoldeb aml.
- Chwalu teulu,gwahanu ac ysgaru
- Digwyddiad trawmatig yn y teulu megis profedigaeth
- Trais a chamdriniaeth yn y cartref
- Sefyllfaoedd lle mae disgwyl i'r plentyn ofalu am aelod arall o'r teulu
- Rhiantu annigonol,diffyg trefn a diffyg cefnogaeth barhaus.

3.Datganiad o fwriad

Bydd Adran Addysg Gwynedd yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i annog a chefnogi disgyblion sy'n dioddef o ffobia ysgol neu sy'n gwrthod mynd i'r ysgol.

4.Fframwaith Statudol

4.1 Deddf Addysg 1996

4.3 Deddf Plant 2004

5.Egwyddorion Sylfaenol

5.1 Er mwyn adnabod a chefnogi disgyblion sy'n dioddef o ffobia ysgol dylai ysgol sefydlu strategaethau i ganfod diffyg presenoldeb, a dylent gymryd camau priodol yn gynnar, ar ôl ymgynghori gyda rhieni ac asiantaethau eraill.

6.Amcanion Adran Addysg Gwynedd

6.1 Prif rôl Y Gwasanaeth Lles Addysg yw gwella presenoldeb yn yr ysgol, a gallant gymryd camau cyfreithiol lle bo angen. Ond ni fyddai hyn yn llwybr priodol yn achos ffobia ysgol. Bydd y pwysau yn hytrach ar roi'r gefnogaeth angenrheidiol ar waith a chynllunio ail intigreiddio i addysgu prif ffrwd, yn ddibynnol ar pa mor llwyddiannus fyddai'r gefnogaeth.

6.2 Bydd Gwasanaeth Seicolegwyr Addysg ar gael i ysgolion yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a wnaethbwyd rhwng yr awdurdod a'r ysgolion, i gefnogi disgyblion â ffobia ysgol.

7. Dyletswyddau Corff Llywodraethol Ysgol

7.1 Sicrhau strategaeth gwirio presenoldeb yn yr ysgol

7.2 Sicrhau ethos gadarnhaol tuag at ddisgyblion gyda ffobia ysgol

8. Arfer dda i Benaethiaid Ysgolion

8.1 Mae ymchwil gan SCYA wedi nodi nifer o arferion da sydd wedi'u mabwysiadu gan ysgolion er mwyn cefnogi disgyblion sy'n dioddef o ffobia ysgol. Mae rhain yn cynnwys:

- Caniatau i ddisgyblion ddechrau ysgol yn hwyrach a gorffen yn gynharach
- Defnyddio mynedfa wahanol
- Rhiant yn eu casglu amser cinio
- Darparu "lle diogel" ar gyfer disgyblion sy'n methu â wynebu ystafelloedd dosbarth llawn
- Darparu cymorth ychwanegol yn y dosbarth
- Systemau "cyfeillio" –cymorth yn yr ysgol gan ddisgybl a enwir
- Ail-intigreiddio graddol- yn cynnwys llunio amserlenni rhan-amser wedi'eu haddasu ar gyfer yr unigolyn

8.2 Mae rhai ysgolion yn darparu uned gefnogi ar wahân ar gyfer disgyblion sydd wedi datblygu ffobia ysgol. Mae unedau ar wahân yn darparu awyrgylch "diogel" a chyfle i ddisgyblion agored i niwed gefnogi'i gilydd.

8.3 Lle caiff ffobio ysgol ei nodi fel cyflwr meddygol, fel iselderysbryd neu bryder difrifol, dylid darparu addysg yn yr un modd ag ar gyfer plant sy'n methu â mynychu oherwydd salwch

Dyddiad Mabwysiadu'r polisi yn wreiddiol:

Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr:

Pennaeth:

Dyddiad Adolygu'r Polisi:

